**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**BIL LLES PLANT AC YSGOLION**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Plant ac Ysgolion (“y Bil”) gerbron Tŷ’r Cyffredin, Senedd y DU, ar 17 Rhagfyr 2024. Gosodais LCM o dan RhS 29.2 ar 24 Mawrth 2025 mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mawrth, a memorandwm dilynol i gynnwys gwelliannau a wnaed mewn perthynas â mesurau cyflogaeth plant, ar 28 Mai.

3. Mae'r LCM Rhif 3 hwn yn cwmpasu darpariaethau ychwanegol sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol sydd, ar ôl ystyried ymhellach, yn gofyn am gydsyniad y Senedd. Mae hefyd yn cwmpasu'r pŵer canlyniadol cyffredinol y mae angen cydsyniad y Senedd arno.

4. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor yr Arglwyddi i'w weld yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion.

**Amcanion y Polisi**

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw:

   Cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd mewn ysgolion a gwella'r system addysg i'w gwneud yn fwy cyson a mwy diogel i bob plentyn. Mae hefyd yn ceisio cryfhau rheoleiddio gofal cymdeithasol i wella ansawdd gofal i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion plant, gan gadw plant wedi'u gwreiddio yn eu teuluoedd a chymunedau lleol lle bo hynny'n bosibl. O ran cyflogaeth plant, mae'r Bil yn ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr a phlant a sicrhau bod plant yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd gwaith cyflog addas, tra'n cadw'r mesurau diogelu presennol sy'n sicrhau nad yw cyflogaeth yn effeithio'n andwyol ar iechyd, datblygiad nac addysg plant.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

7. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- gorchymyn awdurdodau lleol i gynnig ‘Family Group Decision Making’; (cymal 1 fel y'i cyflwynwyd)
- sicrhau amddiffyn a diogelu plant drwy gryfhau rôl addysg wrth ddiogelu, rhannu gwybodaeth yn well ar draws gwasanaethau amlasiantaeth, a galluogi un dynodwr unigryw ('dynodwr cyson') i gefnogi plant a theuluoedd (Cymalau 2-4 fel y'u cyflwynwyd)
- rhoi cymorth i blant sydd mewn gofal, sy'n gadael gofal neu sy'n cael gofal gan berthynas a gofalwyr gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi cynnig lleol ar gyfer gofal gan berthynas, estyn rôl pennaeth ysgol rithwir i blant sy'n cael gofal gan berthynas yn ogystal â'r rhai sydd â gweithiwr cymdeithasol, cryfhau cymorth i unigolion cymwys sy'n gadael gofal trwy 'Staying Close’; a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael cyfnod pontio wedi'i gynllunio i’w cynorthwyo i fod yn oedolyn. (Cymalau 5-8 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 5-9 bellach; gyda Chymal ychwanegol i gynnwys na ddylid ystyried pobl sy'n gadael gofal yn ddigartref yn fwriadol)
- deddfu ar gyfer llety plant sy'n derbyn gofal; gan gyflwyno trefniadau cydweithredu rhanbarthol i elwa ar bŵer prynu awdurdodau lleol, a darparu fframwaith statudol i awdurdodi amddifadu rhyddid i blant sydd angen hynny i'w cadw'n ddiogel, mewn llety heblaw Cartref Plant Diogel, wedi'i gynllunio gyda'r prif bwrpas o roi gofal a thriniaeth (Cymalau 9-10 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 10-11 bellach)
- grymuso'r rheoleiddiwr, Ofsted, i fynd i'r afael ag achosion o dorri Deddf Safonau Gofal 2000, gan gynnwys yn erbyn cartrefi plant heb eu cofrestru (Cymalau 11-12 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 12-13 bellach)
- sefydlu ‘Financial Oversight Regime’ i gynyddu tryloywder ariannol a chorfforaethol darparwyr gofal lle bo'n anodd cael rhai yn eu lle a'u perchnogion corfforaethol, yn ogystal â ‘Provider Oversight Regime’; (Cymal 13 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 14 bellach)
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i weithredu cap ar elw darparwyr gofal cymdeithasol plant nad ydynt yn awdurdodau lleol yn y dyfodol, a gosod cosbau ariannol a'r weithdrefn ar gyfer gosod cosbau o'r fath (Cymalau 14-17 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 15-18 bellach)
- rheoleiddio ar gyfer y defnydd o weithwyr asiantaeth ar gyfer gwaith cymdeithasol plant (Cymal 18 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 19 bellach)
- estyn y troseddau presennol am achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol fel eu bod yn gymwys i blant 16 a 17 oed mewn lleoliadau gofal a chadw penodol (Cymal 19 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 20 bellach)
- deddfu mewn perthynas â chyflogi plant, drwy gyflwyno trefniadau newydd ar gyflogi plant yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (Cymal 20 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 26 bellach)
- deddfu i sicrhau bod clybiau brecwast am ddim ar gael i bob plentyn; (Cymal 21 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 27 bellach)
- deddfu mewn perthynas â bwyd a diod i'w ddarparu mewn Academïau (Cymal 22 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 28 bellach)
- cyfyngu ar nifer yr eitemau gwisg ysgol wedi'u brandio y gall ysgolion eu mynnu (Cymal 23, Cymal 29 bellach)

- cyflwyno mecanwaith cael cydsyniad awdurdod lleol ar gyfer tynnu plant penodol o'r ysgol (Cymal 24 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 30 bellach)
- cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael a chynnal cofrestrau Plant nad ydynt yn yr Ysgol a darparu cymorth i rieni sy'n addysgu gartref a darparu canllawiau i gefnogi hyn. (Cymalau 25 a 28 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 31 a 34 bellach)
- gwella effeithlonrwydd y broses gorchymyn mynychu'r ysgol (Cymal 26 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 32 bellach)
- pwerau i wneud diwygiadau canlyniadol (Cymal 29 ac Atodlen 1 fel y'u cyflwynwyd, Cymal 35 ac Atodlen 2 bellach)
- cryfhau a gwella deddfwriaeth mewn perthynas â sefydliadau addysg annibynnol gan gynnwys cofrestru a safonau (Cymalau 30-37 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 36-43 bellach)
- gwneud newidiadau technegol sy'n gysylltiedig â phryd mae angen i Ofsted adrodd ar ansawdd arolygiaethau penodol eraill ac i roi pwerau i Ofsted rannu gwybodaeth gyda nhw (Cymal 38 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 44 bellach)
- cryfhau'r system ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn addysgu (Cymal 39 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 40 bellach)
- gwneud yn ofynnol i athrawon gael, neu weithio tuag at gyflawni Statws Athro Cymwysedig ("SAC") (Cymal 40 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 46 bellach)
- gosod dyletswyddau ar ysgolion Academi i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol, darpariaeth ar gyfer gwella ymddygiad a thâl ac amodau athrawon (Cymalau 41-46 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 47-52 bellach)
- cyflwyno pwerau newydd mewn perthynas â lleoedd ysgol a derbyniadau, (Cymalau 47-50 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 53-56 bellach)
- gwneud darpariaethau mewn perthynas â sefydlu ysgolion newydd (Cymalau 51-55 fel y'u cyflwynwyd, Cymalau 57-62 bellach)
- darparu pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol (Cymal 56 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 63 bellach)
- pwerau cychwyn (Cymal 59 fel y'i cyflwynwyd, Cymal 66 bellach)

8. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfarfodydd ac ymgysylltiad rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU. Dechreuodd trafodaethau ar gynnwys y Bil ym mis Medi 2024, a dros yr hydref, cawsant eu hehangu i ystyried estyn darpariaethau penodol i gwmpasu Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd ers hynny i drafod darpariaethau. Rwyf hefyd wedi bod mewn cysylltiad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

9. Mae'r Bil yn rhyngweithio â:

    - Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
    - Deddf Addysg 1996
    - Deddf Plant 1989
    - Deddf Plant 2004
    - Deddf Safonau Gofal 2000

- Deddf Addysg a Sgiliau 2008
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Academïau 2010
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- Deddf Diogelu Data 2008

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Rhan 2:

- Cymal 35 ac Atodlen 2 (a gyflwynwyd fel Cymal 29 ac Atodlen 1), Plant nad ydynt yn yr ysgol: diwygiadau canlyniadol
- Cymal 63 (Cymal 56 fel y'i cyflwynwyd): pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol
- Cymal 66 (Cymal 59 fel y'i cyflwynwyd): pwerau cychwyn

11. Mae Cymal 35 ac Atodlen 2 (Cymal 29 ac Atodlen 1 fel y'u cyflwynwyd) yn ymwneud â phwerau i wneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas ag adran 32, Gorchmynion Mynychu'r Ysgol, ac mae angen cydsyniad y Senedd.
12. Mae angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon neu'r darpariaethau hyn oherwydd eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg yng Nghymru.

13. Mae cymal 63 (Cymal 56 fel y'i cyflwynwyd) yn darparu i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys i Ddeddfau Senedd Cymru. Nid oes ar hyn o bryd unrhyw bwerau cyfwerth ar gyfer Gweinidogion Cymru ac mae'r mater hwn wedi ei godi â Llywodraeth y DU.

14. Mae Cymal 66 (Cymal 59 fel y'i cyflwynwyd) yn ymwneud â phwerau cychwyn ac yn nodi pa bryd y byddai'r darpariaethau yn y Bil yn dod i rym yng Nghymru. Mae hwn yn bŵer cyffredinol o fewn y Bil ac mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gychwyn Cymalau 30-35 ac Atodlen 2 (y darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol, a'r rheoliadau y bydd eu hangen i'w dwyn i rym).

15. Cafodd y cymalau hyn eu hepgor o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 1 mewn camgymeriad.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

16. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddydd Llun 10 Mawrth 2025, gan nodi bod gwelliannau'r llywodraeth i'r cymalau yn ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol (Cymalau 24-29 ac Atodlen 1 fel y'i cyflwynwyd) o fewn

cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a'i bod o'r farn bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

17. Yn ogystal â hyn, mae nodiadau esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yn cadarnhau bod y darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

18. Mae Llywodraeth Cymru wedi codi'r mater o bwerau canlyniadol gyda Llywodraeth y DU, i geisio pwerau perthnasol i Weinidogion Cymru.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion**

19. Mae gwneud darpariaeth yn y Bil hwn gan Senedd y DU yn galluogi cyflawni darpariaeth gadarnhaol i Gymru. Er y gellid cyflwyno darpariaeth mewn Bil gan y Senedd, byddai gwneud hynny'n effeithio ar gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol eraill ac ni ellid ei chyflawni o fewn yr un amserlenni â Bil y DU. Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod plant Cymru yn cael yr un amddiffyniadau â phlant Lloegr o ran plant nad ydynt yn yr ysgol.

20. Mae'r darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol yn sicrhau cydraddoldeb yn y gyfraith ar draws Cymru a Lloegr yn y maes hwn ac yn rhoi pwerau i Gymru i gychwyn darpariaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â phwerau canlyniadol.

**Goblygiadau ariannol**

21. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r cymalau hyn, nid i Lywodraeth Cymru nac i Awdurdodau Lleol, ac eithrio mewn perthynas â chostau gweinyddu.

**Casgliad**

22. Yn fy marn i, mae'n briodol i Senedd y DU ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y byddant yn gwella polisi presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phlant nad ydynt yn yr ysgol. Felly, rwy'n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
***12 Mehefin 2025***